Cofnodion Drafft Cyngor Cymuned yn y Neuadd 5.2.26 am 7.30

Yn Bresennol

Annwen Hughes, Helen Johns, Robin Ward, Luise Vassey, Eirwyn Thomas, John Evans, Jane Taylor Williams,

Ymddiheuriadau

Nia Jones, Gwynfor Owen. Kevin Titley (mewn pwyllgor Parc Cenedlaethol)

Gair gan y Cadeirydd

Croesawu pawb I'r cyfarfod.

Datgan Buddiant – Dim ond AH gan ei bod ar gyfarfod Pwyllgor Cynllunio Parc Cenedlaethol

Derbyn Cofnodion cyfarfod 8.1.26 fel rhai cywir

Ceisiadau Cynllunio

1. Safle carafan Plas Gwynfryn – trafodwyd y cais yma ymhellach, gan bod y Clerc wedi cael galwad ffon gan y perchennog. Yr hanes gan AH – cais wedi ei wrthod, apel wedi ei wrthod. Wedi cyflwyno apel arall. Cafwyd cytundeb I adael y garafan am 6 mis. Hwn Bellach wedi dod I ben. Swyddog gorfodaeth yn delio gyda'r mater.Mae'r mater allan o,n dwylo fel Cyngor a hefyd Parc Cenedlaethol. Cais iddi hi ei hun oedd y cais cychwynnol, ac nid ar gyfer gofalwr. Felly yn torri amodau. Caisy n ol yn 2021 am gael gosod carafan dros gyfnod dros dro o 3 blynedd yn unig.
   Felly oherwydd hynny pasiwyd I beidio ac ymyrrud.
2. Cais Rhif NP5/62/60H – codi estyniad cefn unllawr a chreu patio Cais Garddle.

Pasiwyd I gefnogi hwn

Materion yn codi

Cyllid

Wedi gofyn am braesept o £29000 gan bod gormod o arian yn cael ei gario trosodd

Sef £29200.67 yn y banc diwedd ionawr . Mae'n bosib bydd hyn yn llai erbyn diwedd Mawrth os bydd modd gwario peth ar y CCTV. A hefyd am y camddealltwriaeth efo glanhau llwybr y fynwent.

Hynny y w bod mwy o waith wedi ei wneud ar y llwybr cyfan y fynwent – gwaredu mwsogl I osgoi I bobl lithro arno. Y bwriad oedd gwneud darn o'r Vic hyd at y fynwent Newydd, a dim ond defnyddio golchwr pwer gan ddefnyddio dwr gan y Victoria. Ond mi aeth y contractwr gam llawer pellach a defnyddio cemegyn a gwneud y llwybr cyfan. Gwaith da, ond yn ddrud iawn.

Swm o £2990

Gwers I ddysgu o hyn medd ETh – cofnodi ar bapur bob tro a nid drwy sgwrs.

Y Cadeirydd ar Is Gadeirydd mewn trafodaethau parthed hyn.

'Roedd brys I wneud y Gwaith gan bod un person wedi disgyn ar y llwybr.

Torri rheolau bioamrywiaeth.

Neb wedi meddwl gofyn am bris. Rhaid bod yn fwy gofalus a gwers I'w dysgu o hyn.

Roedd y contractwr wedi addo gneud yn rhatach gan ei fod eisiau helpu y gymuned!!!

Gwaith da wedi ei wneud ar glirio iddew yn y fynwent. Yn anffodus mae angen gwneud Gwaith ar y cwt bach. Pasiwyd I gael cyfarfod am 4.00 pm dydd gwener I drafod hwn.

Taliadau Mis Ionawr a derbyniadau

Derbyn £500 gan Gyngor Gwynedd – grant I wneud Sylfaen ar gyfer mainc cae chwarae

Taliadau - £184.96 I RW am y microphone (ad daliad)

£780 I John Thomas am waith tacluso y fynwent

£78 pads I'r defib

£90 am agor bedd gweddillion

£12 am Rent Neuadd

(Erys arian ar gyfer Ysgol Feithrin £1000)

(£1000 ar gyfer Cyfeillion yr Ysgol)

Y ddau yma I'w talu yn awr.

2.CCTV – cafwyd cyfarfod gyda perchnogion Wenallt parthed gosod rhain. Bwriad I drio gwario y £2400 sydd yn y gyllideb ar offer . Bu I Rich ddod yno hefyd.

Gweld cyfle I osod 3 camera ar yr adeilad.

Ar y cychwyn defnyddio trydan a wi fi Wenallt. Ond y bwriad I fynd yn annibynnol yn y diwedd.

Bydda yn rhaid cael cytundeb gyda Wenallt

Beth fyddai'r costau rhedeg hyn.

Bod Rich am brisio petha yn weddol sydun.

3. Cyfarfodydd hybrid zoom – am drio hwn eto mis Mawrth gyda'r microphone. Cychwyn am 7.00 yr hwyr.
4. Y Cae Chwarae – Play Inspection Wales I wneud archwiliad o'r offer.
5. Biniau Halen gaeaf – bod cais wedi dod I leoli un Newydd ger Pont Gerrig Cilcychwyn a hefyd yng Nghwm Bychan.

Cost o roi rhai Newydd yn £362 y safle. Bydda rhaid adolygu'r safle, gellid ail leoli biniau am ddim. Pasiwyd I adael hyn tan flwyddyn nesaf (ariannol – gaeaf)

6. Wedi talu am padiau Newydd ar gyfer y defibiwlator. Dyddiad wedi darfod. RW wedi trefnu hyn. 18 mis mae nhw yn parhau.
7. Adroddiad gan Annwen Hughes

1. Asesu palmentydd
2. Coed y n gwyro ar Linell ffon gyferbun Llwyn Onn.
3. Toiledau wedi blocio eto.
4. Sbwriel mewn bagiau duon wedi eu gadael ger y toiledau
8. Rhyddhau yr arian I' Gyfeillion yr Ysgol – prosiect allanol £1000
   Hefyd hysbysu nhw bod grantiau ar gael drwy Deb Justice parthed grantiau.
9. Gohebiaeth parthed Camp gan Mabon ap Gwynfor. Pasiiwyd I anfon at LeePaul I ddod atom I ni gael diweddariad ar faterion y Camp.
   Unrhyw Fater Arall

   a)Nododd RW bod yna gyfarfod gyda'r Heddlu 13.3.26
   Hefyd bod pwyllgor TFW gyda'r Rheilffordd 24.2.26 gwirfoddoli

   b)Materion Parcio a rhwystro traffic yn Llanbedr – 2 safle ger Plas Newydd palmant, a hefyd ger Llwyn Onn. Cysylltu gyda Iwan ap Trefor.

   c) Dwr yn codi wrth Siop Feics

   d)Gorr yrru- bod Elliw PCO bod cyflymdra dros 26 m/p/h.
   Tud 3.
   e) Un person lleol wedi cael ticed parcio am barcio ar y llinell melyn dwbwl ger y Victoria

   ff) Ffordd Sarn Hir yn ddifrifol o anwastad. Yn berrig. Bod yr Heddlu a Gwasanaeth Ambilwans yn cwyno. Angen anfon at Gerwyn Jones Cyngor Gwynedd

MATERION ERAILL

1. Y Fynwent
2. Cae Chwarae – archwilio yr offer gyda play inspection
3. Tendro am waith Cyngor – ar ddeall nad yw Perry Jones am wneud Gwaith I ni eleni. Bydd hysbys yn mynd I'r Llais, Bwrdd Arddangos a hefyd ar y wefan.
4. Materion Cyngor Gwynedd parthed coed yn gwyro dros cables ffon, dwr, a sgubo dail. A hefyd sefyllfa budreddi ar y ffordd a hefyd llwybr steps cae chwarae. KT wedi anfon lluniau I Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd, ond heb dderbyn unrhyw ymateb. Y Clerc wedi Dilyn hyn I fyny ac wedi derbyn ymateb – y bydd y Gwaith yn cael ei adolygu pryd fydd yr Arolygwr priffyrdd yn yr ardal nesaf. Byddant yn ein diweddaru aro l derbyn ei adroddiad..
5. Cais am finiau halen Newydd.

a) Ger pont gerrig Cilcychwyn a Cwm Bychan.

Manylion costau rhain fydd – £362.67

Angen asesiad o’r lleoliad – I fod yn ddiogel

Dewis I’r Cyngor Cymuned – sef ail leoli bin sydd yn yr ardal yn barod (dim cost am hyn) neu ariannu bin Newydd am £362.67